**Cost afiechyd ac anabledd oedran gweithio sy'n rhwystro gweithio yng Nghymru**

Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau erthygl[1] a amcangyfrifai y byddai **cost afiechyd ac anabledd oedran gweithio sy'n rhwystro gweithio** yn y DU yn debygol o fod o leiaf £240 biliwn yn 2022, o bosibl yn gymaint â £330 biliwn. Rydym wedi amcangyfrif, **yng Nghymru, fod y gost tua £19.4 biliwn yn 2022.**

Mae'r gost hon yn cynnwys allbwn economaidd coll oherwydd absenoldeb salwch, anweithgarwch economaidd, a rhoi gofal anffurfiol, colli refeniw treth o'r un peth, costau'r GIG, a thaliadau budd-daliadau. Mae deall goblygiadau economaidd afiechyd ymhlith pobl oedran gweithio yn bwysig ar gyfer ein gwaith i gefnogi pobl gyda'u hiechyd a'u cyflogaeth.

Fel gyda'r amcangyfrif ar lefel y DU, dylid dehongli'r amcangyfrifon hyn fel y gwahaniaeth rhwng yr allbwn economaidd cyfredol, a'r hyn y gallai'r allbwn economaidd fod pe na bai cyflyrau iechyd yn ystod oedran gweithio yn cyfyngu ar bobl neu'n eu hatal rhag gweithio. Nid yw'r dadansoddiad ychwaith yn cynnwys effaith iechyd ar gynhyrchiant ymhlith y bobl hynny sydd mewn gwaith, na chostau marwolaethau rhai o oedran gweithio y gellir eu hatal.

Methodoleg a chyfrifo

Gwerth ychwanegol gros (GVA) y pen:

Mae'r dadansoddiad yn mesur allbwn economaidd gan ddefnyddio Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y pen. Amcangyfrif yw hyn o swydd unigolyn at y Cynnyrch Domestig Gros (GDP). Defnyddiodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ddata’r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar gyfer 2022, sy’n amcangyfrif bod y Gwerth Ychwanegol Gros cymedrig yn £68,818 ar gyfer pob gweithiwr nad yw’n anabl, a £46,513 ar gyfer pob gweithiwr anabl. Mae amcangyfrif GVA penodol i Gymru ar gael ar gyfer gweithwyr nad ydynt yn anabl, ond nid ar gyfer gweithwyr anabl, felly defnyddiwyd amcangyfrifon y DU.

Colli allbwn oherwydd afiechyd mewn oedran gweithio sy'n rhwystro gweithio:

Cydran gyntaf y cyfrifiad yw faint o allbwn economaidd sy'n cael ei golli oherwydd salwch sy'n digwydd yn ystod oedran gweithio. Disgrifir pobl nad ydynt mewn cyflogaeth nad ydynt wedi bod yn chwilio am waith o fewn y 4 wythnos diwethaf a/neu sy'n methu â

[1] Yr Adran Gwaith a Phensiynau. The cost of working age ill-health and disability that prevents work. 2025. Ar gael yn: The cost of working age ill-health and disability that prevents work - GOV.UK

dechrau gweithio o fewn y 2 wythnos nesaf fel pobl sy'n economaidd anweithgar. Gall hyn fod oherwydd salwch. Yn 2022, roedd tua 159,000 o bobl yn economaidd anweithgar oherwydd salwch hirdymor yng Nghymru[2] . Y nifer a nododd anweithgarwch economaidd oherwydd salwch dros dro oedd 12,000.

Amcangyfrifir bod yr allbwn a gollwyd gan y rhai sy'n sâl dros dro yn £825.8 miliwn, a amcangyfrifwyd gan ddefnyddio GVA cymedrig ar gyfer pob gweithiwr nad yw'n anabl, oherwydd tybir y byddant yn dychwelyd i'w gallu cynhyrchiol llawn os byddant yn dychwelyd i'r gwaith. Yr amcangyfrif o'r allbwn a gollwyd oherwydd salwch hirdymor yw £7.4 biliwn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio GVA cymedrig ar gyfer pob gweithiwr anabl. Mae hyn oherwydd tybir bod salwch hirdymor yn cynrychioli cyflyrau sy'n parhau yn y gwaith i raddau helaeth, sy'n golygu y gallai'r amcangyfrif o GVA uwch fod yn llai cywir.

Felly, amcangyfrifir bod cyfanswm yr allbwn a gollir o ganlyniad i afiechyd ymhlith pobl o oedran gweithio sy'n rhwystro gweithio yng Nghymru yn £8.2 biliwn y flwyddyn.

Yn arbennig, mae'r gost hon wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wrth i nifer y bobl sy'n economaidd anweithgar oherwydd absenoldeb salwch gynyddu. Yn 2021, amcangyfrifid bod y gost yn £6.9 biliwn, ac yn 2019 roedd hyn yn £6.5 biliwn.

Allbwn a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch:

Yng Nghymru, roedd 11.7 miliwn o ddiwrnodau o absenoldeb salwch yn 2022, sy'n cyfateb i gyfradd absenoldeb salwch o 3.7%[3] . Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn tybio bod gan y gweithiwr cyffredin flwyddyn waith o 230 diwrnod, yn seiliedig ar 6 wythnos o wyliau statudol a gwyliau blynyddol ar gyfartaledd. Gan ddefnyddio'r dybiaeth hon, collodd Cymru gyfwerth â 50,870 o swyddi llawn amser oherwydd absenoldeb salwch yn 2022.

Gallwn amcangyfrif yr allbwn economaidd a gollir drwy luosi'r amcangyfrif o swyddi cyfwerth ag amser llawn a gollir â'r Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) ar gyfer pob gweithiwr. Gan ddefnyddio GVA ar gyfer pob gweithiwr nad yw'n anabl, cyfrifir bod terfyn uchaf yr amcangyfrif hwn yn £3.50 biliwn. Gan ddefnyddio GVA ar gyfer pob gweithiwr anabl, cyfrifir y terfyn isaf fel £2.37 biliwn.

---

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol HI10 Regional labour market: headline indicators for Wales. 2025. Ar gael yn: [HI10 Regional labour market: headline indicators for Wales - Office for National Statistics] [Noder: Rhifyn Ionawr 2025 a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad hwn]

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Sickness absence in the UK labour market. 2025. Ar gael yn: [Sickness absence in the UK labour market - Swyddfa Ystadegau Gwladol] [Nodyn: defnyddiwyd rhifyn 2022 ar gyfer y dadansoddiad hwn]

Gan ddefnyddio'r pwynt canol, amcangyfrifir bod yr allbwn a gollir o ganlyniad i absenoldeb salwch yng Nghymru yn £2.9 biliwn y flwyddyn.

Mae'n nodedig fod absenoldeb oherwydd salwch wedi cyrraedd uchafbwynt yn 2022. Cafodd data absenoldeb salwch yn 2020 a 2021 eu heffeithio'n sylweddol gan bolisïau pandemig COVID-19 fel ffyrlo a chysgodi. Ond cyn hyn, ni chododd nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch uwchlaw 9.5 miliwn rhwng 2002 a 2019. Yn 2023 a 2024, gostyngodd lefelau absenoldeb salwch, sy'n golygu bod yr allbwn a gollwyd o ganlyniad i absenoldeb salwch yng Nghymru yn 2024 yn £1.8 biliwn y flwyddyn.

Allbwn a gollir oherwydd gofalwyr o oedran gweithio yn gofalu am bobl sy'n sâl mewn oedran gweithio:

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif bod 321,478 o ofalwyr anffurfiol yng Nghymru yn 2022/23[4] . O'r rhain, amcangyfrifir bod 91,788 rhwng 16 a 64 oed ac yn ddi-waith, wedi ymddeol, neu fel arall yn economaidd anweithgar.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn tybio bod 55% o'r grŵp hwn yn gofalu am bobl o oedran gweithio. Mae'r dybiaeth hon yn seiliedig ar y NHS Digital Personal Social Service Survey of Adult Carers in England[5] . Nid oes arolwg cyfatebol ar gael i Gymru, ond gallwn dybio bod cyfran debyg o ofalwyr o oedran gweithio yn gofalu am bobl o oedran gweithio yng Nghymru.

Gellir defnyddio'r un arolwg hefyd i amcangyfrif y byddai 65% o'r grŵp hwn yn gweithio pe na byddent yn ofalwyr – mae eu cyfrifoldebau gofalu yn eu rhwystro rhag gweithio.

Gan gymhwyso'r rhagdybiaethau hyn, gallwn amcangyfrif bod 32,814 o ofalwyr yng Nghymru sydd o oedran gweithio, yn gofalu am rywun o oedran gweithio, ac sy'n cael eu rhwystro rhag gweithio gan eu cyfrifoldebau gofalu.

Wrth luosi'r rhif hwn â GVA ar gyfer pob gweithiwr nad yw'n anabl, amcangyfrifir bod yr allbwn a gollir oherwydd gofalwyr o oedran gweithio sy'n gofalu am bobl sy'n sâl yn yr oedran gweithio yng Nghymru yn £2.3 biliwn y flwyddyn.

Costau ychwanegol y GIG:

Mae afiechyd ac anabledd oedran gweithio sy'n rhwystro gweithio yn golygu costau i'r GIG. Mae hyn yn digwydd pan fydd pobl â phroblemau iechyd yn symud o fod yn economaidd weithgar i fod yn economaidd anweithgar, a phan fydd pobl sy'n

---

[4]Yr Adran Gwaith a Phensiynau. Family Resources Survey [DWP StatXplore Family Resources Survey individual table]
[5] NHS Digital Personal Social Services Survey of Adult Carers in England 2023-24

economaidd anweithgar yn datblygu cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn amcangyfrif bod cost pob un o'r digwyddiadau hyn i'r GIG yn £910.

Gellir lluosi hyn â nifer y bobl sy'n economaidd anweithgar oherwydd absenoldeb salwch hirdymor neu salwch dros dro er mwyn amcangyfrif costau'r GIG. Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm y costau ychwanegol i'r GIG o ganlyniad i afiechyd ac anabledd oedran gweithio sy'n rhwystro gweithio yng Nghymru yw £155.6 miliwn y flwyddyn.

Refeniw treth a gollir:

Mae afiechyd ac anabledd oedran gweithio sy'n rhwystro gweithio hefyd yn arwain at golli refeniw treth, o dreth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif cyfradd llifo'n ôl o 26.5%, sy'n golygu y byddai tua 26.5% o'r allbwn economaidd a gollwyd wedi llifo'n ôl i'r llywodraeth fel refeniw treth pe na bai wedi'i golli. Gallwn gymhwyso'r gyfradd llif yn ôl hon i'r amcangyfrifon o allbwn a gollwyd oherwydd anweithgarwch economaidd sy'n gysylltiedig ag iechyd, absenoldeb salwch, a rhoi gofal anffurfiol, er mwyn amcangyfrif cyfanswm y refeniw treth a gollwyd.

Felly, amcangyfrifir bod cyfanswm y refeniw treth a gollir o ganlyniad i afiechyd ac anabledd oedran gweithio sy'n rhwystro pobl rhag gweithio yng Nghymru yn £3.4 biliwn y flwyddyn.

Taliadau budd-daliadau:

Mae rhai pobl o oedran gweithio sy'n sâl neu'n anabl hefyd yn gymwys i gael budd-daliadau. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn adio costau budd-daliadau unigol at ei gilydd i amcangyfrif bod cyfanswm cost y taliadau hyn yn £41 biliwn i'r DU. Nid yw niferoedd y rhai sy'n hawlio rhai budd-daliadau penodol ar gael ar gyfer Cymru, ond gellir graddio'r amcangyfrif ar gyfer y DU i boblogaeth Cymru.

Ym mis Tachwedd 2022, hawliodd 481,813 o bobl o oedran gweithio yng Nghymru fudd-dal[6] . Mae hyn yn cynrychioli 5.9% o gyfanswm y bobl yng Nghymru a Lloegr gyda'i gilydd a hawliodd fudd-dal yn y mis hwnnw. Felly, gallwn dybio bod tua 5.9% o gyfanswm cost taliadau budd-daliadau ar gyfer y DU wedi'i wario yng Nghymru. Nid yw hwn yn amcangyfrif cwbl gywir o gostau budd-daliadau, gan y gall pobl hawlio mwy nag 1 budd-dal, ac mae amcangyfrif y DU hefyd yn cynnwys yr Alban a Gogledd Iwerddon.

[6]Yr Adran Gwaith a Phensiynau. DWP StatXplore Benefit Combinations – Data from May 2019 for England and Wales

Fodd bynnag, gan ddefnyddio'r dull hwn, amcangyfrifir bod cost taliadau budd-daliadau o ganlyniad i afiechyd ac anabledd pobl o oedran gweithio sy'n eu rhwystro rhag gweithio yng Nghymru yn £2.4 biliwn y flwyddyn.

Amcangyfrif o'r gost gyfan:

| **Elfen gost** | **Disgrifiad** | **Amcangyfrif** |
|---|---|---|
| Anweithgarwch economaidd | Colli allbwn oherwydd afiechyd oedran gweithio sy'n rhwystro gweithio | £8.2 biliwn |
| Absenoldeb salwch | Colli allbwn oherwydd absenoldeb salwch | £2.9 biliwn |
| Rhoi gofal anffurfiol | Colli allbwn oherwydd gofalwyr o oedran gweithio yn gofalu am bobl sy'n sâl o oedran gweithio | £2.3 biliwn |
| Cost i'r GIG | Y costau ychwanegol i'r GIG pan fydd rhywun â phroblem iechyd yn economaidd anweithgar yn hytrach nag yn economaidd weithgar | £155.6 miliwn |
| Taliadau budd-daliadau | Cost budd-daliadau nawdd cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chyflyrau iechyd sy'n rhwystro pobl rhag gweithio | £2.4 biliwn |
| Llifiadau yn ôl i'r Trysorlys | Treth ac Yswiriant Gwladol a gollwyd o ganlyniad i beidio â gweithio sy'n gysylltiedig ag iechyd | £3.4 biliwn |
| **Cyfanswm** | | **£19.4 biliwn** |